WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Raglen Eiddilwch Gwent: Cam Dau - **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**


Blwyddyn archwilio: 2014-15

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 504A2015

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

# Cynnwys

Mae'r Rhaglen wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol cynyddol, ond nid yw wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod canlyniadau yn bendant wedi gwella, a fyddai'n bwysig wrth i bartneriaid bennu eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol y rhaglen.


## Adroddiad cryno

Cefndir 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

## Adroddiad manwl

Llwyddodd Rhaglen Eiddilwch Gwent i ddwyn ynghyd bartneriaid a fuddsoddodd amser ac adnoddau i wella canlyniadau i bobl oedrannus eiddil, ond ni chyflawnwyd y nodau ariannol ac mae'n anodd o hyd i'r partneriaid ddarparu tystiolaeth o ganlyniadau 7

Mae trefniadau llywodraethu yn ystod oes y rhaglen wedi bod yn ddigonol ar y cyfan ond gallai'r Rhaglen fod wedi ymgysylltu'n well â phartneriaid, gallai fod wedi elwa ar wybodaeth gliriach a gallai fod wedi bod yn fwy agored ynglŷn â'i busnes 8

Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent yn elwa ar ymrwymiad cryf ac mae ar gam allweddol ar ei thaith ond mae angen gweledigaeth glir arni er mwyn llwyddo 12

## Atodiadau

Crynodeb o adroddiadau craidd 15

Adnodd olrhain penderfyniadau 17

Gwybodaeth benodol am y sefydliadau 21

Ymateb y rheolwyr 27

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 O fis Ebrill 2011, dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a Chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen weithredu model gofal integredig uchelgeisiol a elwir yn Rhaglen Eiddilwch Gwent (y Rhaglen)[1]. Ariannwyd y Rhaglen gan fenthyciad Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau gan wahanol bartneriaid i greu cronfa gyfunol.

2 Mae gan y Rhaglen statws cyfreithiol o dan gytundeb partneriaeth Adran 33[2] rhwng y Bwrdd Iechyd a phum cyngor Gwent. Gwnaeth y cytundeb bara am dair blynedd gan ddechrau ym mis Ebrill 2011. Ffurfiwyd Cydbwyllgor Eiddilwch Gwent fel corff gwneud penderfyniadau a chanddo atebolrwydd ffurfiol o dan y cytundeb Adran 33. Roedd Grŵp Cydgysylltu Gweithredol, amrywiaeth o is-grwpiau arbenigol a strwythurau gweithredu lleol hefyd yn cefnogi gwaith Cydbwyllgor y Rhaglen Eiddilwch[3].

3 Ym mis Tachwedd 2012, canfu adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r Rhaglen fod y partneriaid yn ymrwymedig iawn i weledigaeth rhaglen Eiddilwch Gwent a'u bod wedi llunio fframwaith rheoli rhaglen cadarn i'w hategu. Cydnabu mai megis cychwyn roedd y gwaith o weithredu'r Rhaglen a'i bod yn wynebu heriau i sicrhau bod y Rhaglen yn gynaliadwy, newid arferion gwaith sefydledig a dangos ei heffaith.

4 Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar atebolrwydd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent; yn gyntaf i sefydliadau partner unigol ac yn ail, i Lywodraeth Cymru i brofi p'un a lwyddwyd i fodloni disgwyliadau'r sefydliadau partner.

5 Gwnaeth ein hadolygiad ystyried p'un a yw Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi sicrhau gwelliannau yn unol â disgwyliadau sefydliadau unigol ac yn arbennig:

- A yw'n glir sut y bodlonwyd disgwyliadau'r sefydliadau unigol drwy'r Rhaglen?
- A ddangosodd y Rhaglen drefniadau llywodraethu effeithiol?

[1] Oni nodir fel arall, mae'r 'Rhaglen' yn cwmpasu'r pwyllgorau a'r gweithgorau, aelodau a staff a'r model cyflawni a gwasanaeth cyffredinol.

[2] Mae cytundeb Adran 33 yn darparu sail ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Gall y partneriaid ddefnyddio cytundeb adran 33 fel ffordd o greu cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol. Mae rheolau rheoli ariannol a chyfrifyddu ariannol y Cyngor yn berthnasol. Felly, gall y gwasanaeth ar y cyd adennill TAW yn ogystal â defnyddio hyblygrwydd ariannol arall sydd ar gael i gyrff llywodraeth leol.

[3] At ddibenion yr adroddiad hwn, mae cyfeiriadau at Bwyllgorau'r Rhaglen yn cwmpasu Cydbwyllgor Eiddilwch Gwent, y Grŵp Cydgysylltu Gweithredol, yr amrywiol is-grwpiau arbenigol a'r strwythurau gweithredu lleol.

- A yw cyfeiriad y Rhaglen ar gyfer y dyfodol yn glir ac a gytunwyd ar y cyfeiriad hwnnw?

6 Daethom i'r casgliad **bod y Rhaglen wedi dangos gwaith partneriaeth traws-sector rhanbarthol cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion cymunedol cynyddol, ond nad yw wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod canlyniadau yn bendant wedi gwella, a fydd yn bwysig wrth i bartneriaid benderfynu ar ddyfodol y rhaglen.**

7 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Llwyddodd Rhaglen Eiddilwch Gwent i ddwyn ynghyd bartneriaid a fuddsoddodd amser ac adnoddau i wella canlyniadau i bobl oedrannus eiddil, ond ni chyflawnwyd y nodau ariannol ac mae'n anodd o hyd i'r partneriaid ddarparu tystiolaeth o ganlyniadau.
- Mae trefniadau llywodraethu yn ystod oes y rhaglen wedi bod yn ddigonol ar y cyfan ond gallai'r Rhaglen fod wedi ymgysylltu'n well â phartneriaid, gallai fod wedi elwa ar wybodaeth gliriach a gallai fod wedi bod yn fwy agored ynglŷn â'i busnes.
  Nodwyd y canlynol gennym:
  – bod y trefniadau llywodraethu yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau'n brydlon ond nad oedd sefydliadau partner bob amser yn cael eu hysbysu'n ddigonol am faterion pwysig a oedd yn effeithio ar y Rhaglen, fel y tanwariant mawr sy'n dod i'r amlwg;
  – bod y trefniadau adrodd ariannol yn y Rhaglen yn ddigonol ond nad oedd adrodd ar berfformiad yn addas at y diben;
  – bod y broses o dryloywder cyhoeddus a chofnodi penderfyniadau wedi dechrau'n dda ond ei fod wedi gwanhau dros amser; ac
  – nad oedd gwaith craffu arferol ar benderfyniadau gan Gydbwyllgor Eiddilwch Gwent yn gadarn, er bod y rhan fwyaf o bartneriaid yn cyflwyno adroddiadau blynyddol drwy eu trefniadau craffu eu hunain.
- Mae ymrwymiad cryf i Raglen Eiddilwch Gwent ac mae ar gam allweddol yn ei thaith, ond mae angen gweledigaeth glir arni er mwyn llwyddo. Nodwyd y canlynol gennym:
  – bod y Rhaglen wedi elwa ar ymrwymiad cryf gan y sefydliadau partner; bod angen ailgadarnhau hyn yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r sefydliadau unigol; a
  – bod cyfeiriad y Rhaglen yn y dyfodol yn aneglur, bod y bartneriaeth ar gam allweddol ac nad yw'r partneriaid wedi cytuno eto ar weledigaeth glir, y bydd angen canlyniadau a buddiannau mesuradwy arni.

# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella

Mae Arddangosyn 1 yn dangos tabl o'r cynigion ar gyfer gwella y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cyflwyno o ganlyniad i gynnal yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Sicrhau ymrwymiad i ddyfodol y Rhaglen gan y sefydliadau partner a'i fynegi'n glir drwy gytundeb Adran 33. |
| C2 | Sicrhau y caiff y cytundeb Adran 33 ei ategu gan nodau a thargedau mesuradwy clir. |
| C3 | Datblygu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn sicrhau y gellir dangos tystiolaeth glir o lwyddiant y rhaglen a darparu system i ategu atebolrwydd ardaloedd lleol. |
| C4 | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn cynnwys craffu'n effeithiol ar y rhaglen gyfan ac ymgysylltu â sefydliadau partner fel y bo'n briodol. |
| C5 | Sicrhau bod y broses o gofnodi penderfyniadau yn gyson a bod cofnodlyfr ar gyfer gwneud hynny, a bod gweithgareddau'r rhaglen ar gael i'r cyhoedd ac yn hygyrch. |

# Adroddiad manwl

## Llwyddodd Rhaglen Eiddilwch Gwent i ddwyn ynghyd bartneriaid a fuddsoddodd amser ac adnoddau i wella canlyniadau i bobl oedrannus eiddil, ond ni chyflawnwyd y nodau ariannol ac mae'n anodd o hyd i'r partneriaid ddarparu tystiolaeth o ganlyniadau

8 Bu Rhaglen Eiddilwch Gwent yn llwyddiannus wrth ddwyn ynghyd y pum cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol i ymdrin ag eiddilwch mewn ffordd gydgysylltiedig. Er enghraifft, mae'r rhaglen wedi creu timau gweithio ac adnoddau cymunedol integredig er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n effeithiol ac yn effeithlon wrth helpu pobl eiddil yn y gymuned. Mae partneriaid yn gadarnhaol am y dull gweithredu ac yn rhannu yr un canfyddiad o well canlyniadau. Nododd y cynghorau fod y galw am leoedd gofal preswyl yn eu hardaloedd yn lleihau, a oedd, yn eu barn hwy, o ganlyniad i'r Rhaglen, ac yn gyffredinol, darparodd y partneriaid hanesion achos o well canlyniadau i lawer o bobl hŷn a oedd yn byw ym mhob un o'r pum ardal.

9 Cytunwyd ar yr achos busnes yn 2011 gan y partneriaid a nododd yn glir eu disgwyliadau a'r canlyniadau arfaethedig yn deillio o Raglen Eiddilwch Gwent. Llwyddodd yr achos busnes i sicrhau benthyciad 'Buddsoddi i Arbed' gwerth £7.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Roedd y benthyciad hwn yn ad-daladwy dros gyfnod o bum mlynedd i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r arbedion disgwyliedig fel y'u nodwyd yn yr achos busnes. Nododd yr achos busnes arbedion a gâi eu cyflawni drwy gau gwelyau o fewn ardal y Bwrdd Iechyd, a gostyngiad mewn pecynnau gofal cymhleth a llai o alw am leoliadau gofal preswyl wedi'u hariannu gan y cynghorau.  Roedd partneriaid yn glir o'r cychwyn cyntaf sut y câi'r Rhaglen ei hariannu a gwnaethant gytuno ar fformiwla ar gyfer cyfrannu at wahanol elfennau ohoni ac ad-dalu'r benthyciad.

10 Ni wireddwyd yr arbedion ariannol arfaethedig a chydnabu'r partneriaid, o edrych yn ôl, eu bod yn rhy uchelgeisiol. Roedd y gostyngiad a ragwelwyd yn nifer y gwelyau yn ffactor allweddol wrth sicrhau ymrwymiad gan bartneriaid ac wrth sicrhau'r benthyciad Buddsoddi i Arbed. Ni lwyddodd y partneriaid i gyflawni'r lefel arbedion arfaethedig, ac mae'r benthyciad yn cael ei ad-dalu o hyd o gyllidebau craidd y Bwrdd Iechyd a'r cynghorau.

11 Ni ddangosodd y partneriaid yn glir gyflawniadau cyffredinol Rhaglen Eiddilwch Gwent yn erbyn ei hamcanion gwreiddiol wrth gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn 2014. Gallai'r partneriaid ddangos nifer y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i ryw raddau, y canlyniadau unigol. Roedd y dangosyddion perfformiad allweddol hyn wedi bod ar waith o'r cychwyn, ac roedd agweddau megis cymysgedd achosion cleifion a hyd yr arhosiad ar gael. Fodd bynnag, nid oedd mesurau canlyniad y bartneriaeth ar gael ar gyfer pob agwedd ar y prosiect

ac nid oedd y partneriaid wedi rhagweld effaith newidiadau demograffig ar y galw am wasanaethau yn ddigonol, a effeithiodd ar allu'r partneriaid i ddangos cyflawniad yn erbyn y nodau gwreiddiol.

## Mae trefniadau llywodraethu yn ystod oes y rhaglen wedi bod yn ddigonol ar y cyfan ond gallai'r Rhaglen fod wedi ymgysylltu'n well â phartneriaid, gallai fod wedi elwa ar wybodaeth gliriach a gallai fod wedi bod yn fwy agored ynglŷn â'i busnes

### Darparodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau'n brydlon ond nid oedd sefydliadau partner bob amser yn cael eu hysbysu'n ddigonol am faterion pwysig a oedd yn effeithio ar y Rhaglen, fel y tanwariant mawr sy'n dod i'r amlwg

12 Dangosodd partneriaid unigol ymrwymiad clir i'r Rhaglen drwy sefydlu cytundeb Adran 33. Ystyriodd pwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cynghorau gytundeb Adran 33 drafft Rhaglen Eiddilwch Gwent cyn i'r Pwyllgorau Gweithredol ei gymeradwyo yn ystod gwanwyn 2011. Yn yr un modd, ystyriodd y Bwrdd Iechyd hefyd y cytundeb drafft ac ymrwymodd i'r Rhaglen.

13 Roedd y trefniadau llywodraethu ar gyfer Pwyllgorau'r Rhaglen yn glir. Roedd y cytundeb Adran 33 yn nodi sut y câi penderfyniadau eu gwneud a sut y byddai'r rhaglen yn rheoli ei chyllid. Er enghraifft: disgrifiodd y trefniadau pe ceid achosion o danwario a gorwario; diffiniodd y trefniadau pe byddai unrhyw bartner yn awyddus i adael y Rhaglen; a diffiniodd rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel y corff comisiynu arweiniol. Roedd y cytundeb Adran 33 yn hwyluso proses ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol amserol fel rhan o'r Rhaglen er mwyn sicrhau y gallai cynrychiolwyr partner ar Bwyllgorau'r Rhaglen wneud penderfyniadau heb fod angen iddynt ddefnyddio trefniadau llywodraethu eu sefydliadau unigol. o ganlyniad i'r trefniant hwn y cytunwyd arno, daeth proses gwneud penderfyniadau a allai fod wedi bod yn llafurus iawn yn symlach o lawer.

14 Er bod y dull gweithredu hwn yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau amserol, nid ystyriodd y Rhaglen yn ddigonol sut i gyfleu penderfyniadau a wnaed gan Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent i'r asiantaethau partner unigol. Un enghraifft oedd y penderfyniad i beidio â mabwysiadu model gwasanaeth cyffredin, er bod hyn yn un o egwyddorion sylfaenol gwreiddiol y Rhaglen. Enghraifft arall oedd newidiadau i'r trefniadau ariannol gan nad oedd arbedion yn cael eu cyflawni ac oedi wrth

recriwtio a gafodd effaith sylweddol ar gynlluniau'r gweithlu a'r cam tuag at fodel cyffredin. O ganlyniad i'r penderfyniadau hyn, cafwyd tanwariant nas cynlluniwyd sylweddol ac ni weithredwyd y model yn llawn ym mhob ardal.

15 Er bod y trefniadau llywodraethu wedi'u cynllunio i hwyluso proses ar gyfer gwneud penderfyniadau cyflym,
roedd y bwlch a ddeilliodd o adolygiad annibynnol hirfaith o'r Rhaglen yn golygu'r canlynol:

- gohiriwyd ymdrechion rhai ardaloedd i weithredu'r 'model dymunol' neu cafodd ond ei weithredu'n rhannol;
- nid yw'r eglurder ynghylch hyfywedd parhaus y Rhaglen wedi sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac amserol o'r prosiect gwreiddiol i'w olynydd posibl; ac
- roedd rhywfaint o ansicrwydd ar adeg pan fo'r partneriaid yn gwneud penderfyniadau anodd gan ystyried mesurau caledi.

16 Roedd trefniadau monitro cyffredin ar gyfer Rhaglen Eiddilwch Gwent gan y sefydliadau partner yn amrywiol. Ni roddwyd systemau adrodd ffurfiol cyson a chynhwysfawr ar waith er mwyn sicrhau y câi pob sefydliad partner ei hysbysu'n ddigonol. Yn hytrach, pennodd aelodau'r rhaglen a'r uwch reolwyr eu ffordd eu hunain ar gyfer rhoi gwybod am benderfyniadau a wnaed gan Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent, a wnaed yn bennaf drwy drefniadau rheoli llinell yn hytrach nag unrhyw drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd penodol yn ffurfiol. Er enghraifft: cyflwynodd Cyngor Dinas Casnewydd adroddiadau i'r Cabinet yn 2011 a 2012 ond ni chyflwynwyd unrhyw beth ar ôl hynny; cynhwysodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Raglen Eiddilwch Gwent yn ei ddiweddariad chwarterol ar weithgarwch Cydweithredol, a anfonwyd i bob pwyllgor Craffu a Throsolwg; a derbyniodd cynghorau eraill adroddiad blynyddol i'w pwyllgorau Trosolwg a Chraffu (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion).

## Roedd y trefniadau adrodd ariannol yn y Rhaglen yn ddigonol ond nid oedd adrodd ar berfformiad yn addas at y diben

17 Derbyniodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent adroddiadau rheolaidd ar fonitro ariannol ond nid oedd y negeseuon allweddol yn yr adroddiadau bob amser yn glir oherwydd cymhlethdod y broses ariannu ac esblygiad y model busnes. Cynhyrchwyd adroddiadau misol gan ffrwd waith cyllid Grŵp Cydgysylltu Gweithredol y Rhaglen. Ar y cyfan, roedd yr adroddiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yr oedd ei hangen i'r aelodau wneud penderfyniadau hyddysg ond roedd rhai pryderon nad oeddent yn tynnu sylw at y materion pwysig. Gellid bod wedi gwella ansawdd y broses gwneud penderfyniadau ariannol drwy gyflwyno adroddiadau cliriach a chryno. Cafodd oedi hirsefydledig nas datryswyd wrth recriwtio effaith sylweddol ar broffiliau cyllidebol yn yr adroddiadau ariannol a olygai, ar adegau, eu bod yn gymhleth i'w paratoi, bod angen eu diweddaru'n

rheolaidd a'u bod yn anodd i rai gwneuthurwyr penderfyniadau ddeall yn llawn pam y gwnaed newidiadau.

18 Ni allai Rhaglen Eiddilwch Gwent ddangos cyflawniadau yn erbyn disgwyliadau arfaethedig yn yr achos busnes oherwydd diffyg trefniadau rheoli perfformiad cadarn. Roedd rhai partneriaid yn ei chael hi'n anodd datblygu mesurau digonol a fyddai'n galluogi rhanddeiliaid i benderfynu p'un a oedd amcanion y Rhaglen yn cael eu cyflawni. Erbyn hyn, mae partneriaid yn datblygu fframwaith canlyniadau cadarnach gan ragweld y bydd y Rhaglen yn parhau ac y bydd angen dangos canlyniadau er mwyn denu buddsoddiad pellach. Ar y cyfan, roedd adroddiadau i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent yn ddigonol ac fe'u darparwyd mewn modd amserol.

## Dechreuodd y broses o dryloywder cyhoeddus a chofnodi penderfyniadau yn dda ond daeth yn wannach dros amser

19 Roedd holl aelodau Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent yn uwch aelodau o'u priod sefydliadau. Roedd pob un ohonynt yn gweithredu o fewn eu pwerau dirprwyedig ac yn gwneud penderfyniadau o fewn y cylch gwaith a nodwyd yn y cytundeb Adran 33 ac yng nghynllun dirprwyo eu sefydliad unigol. Mae'r enghreifftiau yn Atodiad 2 yn nodi dau benderfyniad allweddol a wnaed ac yn dangos sut roedd y penderfyniadau hyn o fewn y fframwaith llywodraethu.

20 Nid oedd penderfyniadau a wnaed gan Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ar gael yn gyson i'r cyhoedd yn ystod camau diweddaraf y Rhaglen, er iddynt gael eu cyfleu'n eang yn ystod y camau cynnar. Ni ddarparodd cofnodion cyfarfodydd gofnod cyson glir, ac ni chofnodwyd y penderfyniadau a wnaed. Byddai cofnodion clir o'r penderfyniadau a wnaed wedi helpu o ran deall cynnydd y Rhaglen a'r heriau yr oedd yn eu hwynebu. Tan 2013, cyflwynwyd cofnodion Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ar wefan Eiddilwch Gwent benodedig a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd, a oedd yn cyfleu gweledigaeth y Rhaglen a chynnydd. Penderfynodd y Grŵp Gweithredu a Chydgysylltu roi'r gorau i gefnogi gwefan Eiddilwch Gwent yn 2013. Ni roddwyd unrhyw drefniant arall ar waith er mwyn sicrhau bod y cofnodion ar gael yn hawdd i'r cyhoedd. Felly, dim ond i'r rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â Rhaglen Eiddilwch Gwent yr oedd y cofnodion ar gael, neu drwy wneud cais.

## Nid oedd gwaith craffu arferol ar benderfyniadau gan Gydbwyllgor Eiddilwch Gwent yn gadarn, ond roedd y rhan fwyaf o bartneriaid yn cyflwyno adroddiadau blynyddol drwy eu trefniadau craffu eu hunain

21 Nid oedd fframwaith llywodraethu'r Rhaglen yn cynnwys swyddogaeth graffu benodedig effeithiol, felly i raddau helaeth ni heriwyd penderfyniadau a wnaed gan

Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ac nid oeddent yn destun gweithdrefn graffu annibynnol fanwl. Er bod y partneriaid yn cyflwyno adroddiadau o fewn eu strwythurau llywodraethu eu hunain, er enghraifft i Bwyllgorau Craffu ac Archwilio, ni chraffwyd yn effeithiol ar y rhaglen ei hun.

22 Daethom o hyd i enghreifftiau lle cafwyd gwyriadau sylweddol o'r cynllun gwreiddiol, yn ein barn ni, lle y byddai trafodaeth ehangach ymhlith y partneriaid wedi bod yn fuddiol. Byddai'r drafodaeth ehangach wedi sicrhau dealltwriaeth, ymrwymiad a chytundeb mewn perthynas â diwygiadau i'r cynllun. Er ein bod yn nodi mai Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent, gan weithredu o fewn ei awdurdod, a wnaeth benderfyniadau allweddol, ni roddwyd y cyfle i bartneriaid ddylanwadu ar y penderfyniadau hyn. Er enghraifft, erbyn diwedd 2013, roedd Rhaglen Eiddilwch Gwent wedi tanwario tua £2 filiwn oherwydd anawsterau recriwtio a phenderfyniad cynharach i rewi prosesau recriwtio dros dro. Penderfynodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent yn ddiweddarach na ddylai ddefnyddio rhagor o arian o'r benthyciad Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd £1 filiwn a neilltuwyd i'r Rhaglen heb ei gwario ac effeithiodd hyn ar gyflymder cyflwyno model staffio'r rhaglen a darparu gwasanaethau mewn rhai ardaloedd. Yn ein barn ni, mae'r rhain yn benderfyniadau allweddol y dylai'r sefydliadau partner fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt ac y byddent o bosibl wedi bod yn awyddus i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

23 Rhannwyd y cynllun ariannol gwreiddiol a chytunwyd arno gyda phartneriaid adeg dechrau'r cytundeb Adran 33 yn 2011. Fodd bynnag, ni rannwyd y diwygiadau i'r cynllun ariannol ac eithrio gyda'r rheini a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen. Roedd partneriaid yn derbyn adroddiadau rheolaidd am gynnydd ariannol drwy eu trefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiadau hyn bob amser yn dangos sefyllfa ariannol gyffredinol y Rhaglen nac, er enghraifft, y tanwariant cynyddol o ganlyniad i'r heriau recriwtio a'r penderfyniad i ohirio trefniadau i barhau i gyflwyno'r Rhaglen ym mhob ardal.

24 Roedd rhai cynghorau yn fwy rhagweithiol nag eraill o ran hysbysu eu sefydliadau, er enghraifft, drwy gynnal pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y cyd i ystyried eiddilwch fel mater trawsbynciol a chynnal seminarau er mwyn helpu aelodau i ddeall y materion yr oedd Rhaglen Eiddilwch Gwent yn ymdrin â hwy. Yn gyffredinol, roedd y partneriaid yn derbyn gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, ar wahanol adegau, ar wahanol amlderau. Roedd adroddiadau, ar y cyfan, yn canolbwyntio ar y goblygiadau i'w sefydliad eu hunain er mwyn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau llywodraethu eu hunain yn hytrach na chynnydd y Rhaglen yn gyffredinol.

25 Cafodd y Rhaglen ei herio rhywfaint yn allanol, i ddechrau gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012 ac yn fwy diweddar pan gomisiynodd Rhaglen Eiddilwch Gwent adolygiad gan gynghorydd allanol a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Medi 2014. Cyflwynwyd y ddau adolygiad hyn a'r cynlluniau gweithredu a ddeilliodd ohonynt i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent a thrwy sefydliadau partner unigol. Darparodd yr adolygiadau hyn safbwynt allanol, ond ni wnaeth y naill na'r llall ddylanwadu ar y

broses gwneud penderfyniadau mewn ffordd a fyddai'n golygu nad oedd angen rhoi trefniadau craffu effeithiol ar waith, ac ni allent fod wedi dylanwadu yn y fath fodd.

26 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu rhai arwyddion cadarnhaol fod partneriaid wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w sefydliadau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r Rhaglen. Er enghraifft, ers cyhoeddi adroddiad yr ymgynghorydd allanol, mae Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent a phob un o'r partneriaid unigol wedi defnyddio'r adroddiad i lywio'r broses graffu ac i ategu'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chwmpas y gwasanaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r broses hon wedi cymryd amser.

# Mae Rhaglen Eiddilwch Gwent yn elwa ar ymrwymiad cryf ac mae ar gam allweddol ar ei thaith ond mae angen gweledigaeth glir arni er mwyn llwyddo

## Mae'r Rhaglen wedi elwa ar ymrwymiad cryf gan y sefydliadau partner; mae angen ailgadarnhau hyn yng nghyd-destun yr heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu'r sefydliadau unigol

27 Mae gan Raglen Eiddilwch gwent ymrwymiad cryf gan y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Rhaglen ac maent yn awyddus i gynnal y momentwm cyfredol o ran dealltwriaeth gyffredin o anghenion trigolion oedrannus eiddil a buddiannau model Eiddilwch Gwent.

28 Roedd y cytundeb Adran 33 yn benagored, er mai dim ond tair blynedd oedd hyd y cyfnod cychwynnol o ran y cyllid Buddsoddi i Arbed. Ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd, ni cheisiodd y partneriaid gymeradwyaeth ffurfiol gan y sefydliadau partner ar gyfer unrhyw estyniad. Fodd bynnag, cytunodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ei hun yn 2014 i barhau am flwyddyn arall. Byddai trafodaeth gynharach ar gyfeiriad y Rhaglen yn y dyfodol o fewn cyd-destun cyfyngiadau ariannol, diwygiadau i'r sector cyhoeddus a chwmpas posibl gwasanaethau'r rhaglen yn y dyfodol wedi bod o fudd i'r penderfyniad ar ddyfodol y Rhaglen. O ganlyniad, nid oes unrhyw gytundeb ffurfiol gan bob un o'r partneriaid o ran y canlynol:

- rheoli'r gronfa gyfunol, sy'n cynnwys tua £6 miliwn ar hyn o bryd ac sy'n talu'r costau gwasanaeth parhaus;
- y trefniadau ar gyfer ariannu costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth yn y dyfodol ym mhob un o'r ardaloedd; a'r
- cyfraniad gan bob partner tuag at gymorth canolog a chydgysylltu'r rhaglen.

29 Ni chaiff y £5 miliwn o'r benthyciad Buddsoddi i Arbed bellach ei had-dalu fel y bwriadwyd drwy arbedion, felly bydd y sefydliadau partner unigol yn gyfrifol amdani a chaiff ei hariannu o'u cyllidebau craidd mewn gwahanol gyfrannau, gyda'r gyfran fwyaf yn dod i ran y Bwrdd Iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ehangu'r cyfnod ad-dalu. Er bod y partneriaid yn croesawu hyn gan ei fod yn lleihau'r symiau i'w had-dalu bob blwyddyn, mae'n gosod baich ariannol am gyfnod hwy nag a fwriadwyd yn wreiddiol ar y partneriaid ar adeg pan fo effeithiau mesurau caledi yn amlwg.

30 Mae'r heriau gweithredol yn parhau. Mae'n bosibl y gallai'r anawsterau recriwtio a brofwyd eisoes lesteirio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r cynnydd tuag at fodel cyffredin. Gallai pwysau ariannol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y galw ac ar y gallu i gyflawni amcanion y Rhaglen. Gallai'r gofynion o ran arbedion ariannol ar y sefydliadau partner hefyd roi pwysau sylweddol ar adnoddau i ddarparu gwasanaethau. Gellid tanseilio'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yn hyn ac mae'r cynnydd hwnnw yn y fantol.

## Mae cyfeiriad y Rhaglen yn y dyfodol yn aneglur, mae'r bartneriaeth ar gam allweddol ac nid yw'r partneriaid wedi cytuno eto ar weledigaeth glir, y bydd angen canlyniadau a buddiannau mesuradwy arni

31 Mae'r rhaglen wedi cymryd camau cadarnhaol i atgyfnerthu trefniadau arwain a chydgysylltu gweithredol ledled Gwent. Argymhellodd adroddiad yr ymgynghorydd yn 2014 y dylid penodi cyfarwyddwr rhaglen. Cytunodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent i ariannu'r swydd benodedig hon am gyfnod cychwynnol o 18 mis, a bwriedir i'r swydd ddarparu arweinyddiaeth strategol gydgysylltiedig i'r Rhaglen gyfan. Mae ariannu'r swydd hon yn dangos parodrwydd i atgyfnerthu trefniadau cyflwyno'r Rhaglen ac yn dangos ymrwymiad parhaus gan bob partner.

32 Mae'r partneriaid bellach yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd yr uwch reolwyr yn datblygu achos busnes newydd, y bwriadwyd i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ei ystyried erbyn mis Gorffennaf 2015. Mae cynllun ariannol 2015-16 y Rhaglen eisoes ar waith ac mae'r partneriaid yn datblygu cyllidebau dangosol ar gyfer 2016-17 a gaiff eu cynnwys o fewn cytundeb Adran 33 newydd. Bydd angen i'r cynlluniau hyn a'r cytundeb ystyried cyd-destun lleol a chenedlaethol mesurau caledi, diwygiadau i'r sector cyhoeddus, newidiadau i ddemograffeg y boblogaeth a'r galw am wasanaethau. Bydd angen datgan nodau ac amcanion yn glir o fewn y cytundeb.

33 Adeg ein hadolygiad, mae'r cynghorau a'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ystyried eu hopsiynau ar gyfer y Rhaglen yn y dyfodol, gan gynnwys cytundeb Adran 33 newydd. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r partneriaid ystyried eu profiadau hyd yn hyn a'r gwersi a ddysgwyd o'r Rhaglen megis yr angen am drefniadau effeithiol ar gyfer craffu, cyflwyno adroddiadau ariannol a rheoli perfformiad.

# Atodiad 1

## Crynodeb o adroddiadau craidd

Arddangosyn 2: Crynodeb o adroddiadau craidd

Mae Arddangosyn 2 yn dangos tabl o ba mor aml y caiff gwybodaeth ei rhannu gan bartneriaeth Eiddilwch Gwent yn ôl i dîm gweithredol, cabinet neu bwyllgor craffu'r sefydliadau partner unigol.

| | Casnewydd | Sir Fynwy | Torfaen | Blaenau Gwent | Caerffili | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cofnodion cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent | Nis dosbarthwyd y tu hwnt i'r Rhaglen | Nis dosbarthwyd y tu hwnt i'r Rhaglen | Nis dosbarthwyd y tu hwnt i'r Rhaglen | Nis dosbarthwyd y tu hwnt i'r Rhaglen | Nis dosbarthwyd y tu hwnt i'r Rhaglen | Nis dosbarthwyd y tu hwnt i'r Rhaglen |
| Adroddiadau i'r Cabinet neu Dîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd | Cytundeb Adran 33 2011<br>Gorffennaf 2011<br>Chwefror 2012<br>Hydref 2012<br>Mawrth 2013 | Cytundeb Adran 33 2011 | Cytundeb Adran 33 2011 | Cytundeb Adran 33 2011<br><br>Ionawr 2011<br>Mawrth 2011<br>Tachwedd 2014 | Cytundeb Adran 33 2011<br><br>Cynhwyswyd materion ariannol o fewn adroddiadau'r Gyllideb | Bwrdd Gweithredol 2011<br><br>Ionawr 2012<br>Mawrth 2013<br>(Adolygiad CIC)<br>Mai 2014 |

| | Casnewydd | Sir Fynwy | Torfaen | Blaenau Gwent | Caerffili | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Seminarau Trosolwg a Chraffu | Awst 2011<br>Tachwedd 2011<br>Ionawr 2012<br>Mawrth 2013<br>Ebrill 2013<br>Hydref 2013<br>Mawrth 2015 | Mawrth 2011<br>Mawrth 2012<br>Ebrill 2013<br>Tachwedd 2014 | Tachwedd 2011<br>Mawrth 2012<br>Tachwedd 2012<br>Cynhwyswyd hefyd mewn adroddiad cydweithredu a ddosberthir i bob pwyllgor craffu | Ebrill 2011<br>Ionawr 2014<br>Hydref 2014 | Chwefror 2013<br>Hydref 2014 | Ddim yn berthnasol |
| Pwyllgor Archwilio | | | Medi 2012<br>Rhagfyr 2012<br>Rhagfyr 2013<br>Chwefror 2014<br>Mehefin 2014<br>Medi 2014<br>Mawrth 2015 | | Mawrth 2013 | Mehefin 2011<br>Hydref 2012<br>Ebrill 2013<br>Hydref 2014<br>Chwefror 2015 |
| Pwyllgorau Iechyd | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Gorffennaf 2011<br>Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau |
| Arall | | | | Hydref 2014<br>Rheolaeth Gorfforaethol | | |

# Atodiad 2

## Adnodd olrhain penderfyniadau

### Arddangosyn 3: Adnodd olrhain penderfyniadau

Mae Arddangosyn 3 yn dangos i ba raddau y cafodd y penderfyniadau allweddol a wnaed gan y pwyllgor eu cyfleu i'r sefydliadau partner unigol a'u hystyried ganddynt.

| **Penderfyniad: Rhewi prosesau recriwtio** | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | Cytunodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ar gynlluniau ardal a nododd y gofynion staffio er mwyn symud pob ardal o'i man cychwyn tuag at fodel cyffredin fel y'i nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol. Profodd y Rhaglen oedi sylweddol wrth recriwtio staff o ganlyniad i oedi wrth gael gafael ar wiriadau cyflogaeth, archwiliadau meddygol a phrosesau adnoddau dynol hirfaith. Trafododd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent effaith yr oedi hwn mewn sawl cyfarfod, ac mae'r cofnodion yn cofnodi rhwystredigaeth a'r angen parhaus i ailbroffilio cyllidebau. Erbyn mis **Medi 2013**, yn dilyn methiant i oresgyn y rhwystrau er gwaethaf ymdrechion gan aelodau Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent, cafwyd tanwariant cronedig o fwy na £2 filiwn. Cytunodd y partneriaid hefyd y dylid comisiynu gwerthusiad allanol er mwyn ailasesu'r cynlluniau a nodwyd yn yr achos busnes gwreiddiol.<br>Nodwyd y tanwariant o fewn dwy gyfres Cyfrifon Memorandwm cyntaf y cytundeb Adran 33 ac fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Roedd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent hefyd yn ymwybodol nad oedd yr arbedion a ragwelwyd yn cael eu cyflawni mor gyflym ag a ragwelwyd ac mai dim ond cynyddu'r pwysau cost a oedd yn gysylltiedig ag ad-dalu'r benthyciad a wnâi unrhyw benderfyniad i ddefnyddio'r benthyciad ymhellach. |
| **Penderfyniad** | Penderfynodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent rewi'r prosesau ar gyfer recriwtio staff proffesiynol a fyddai wedi cael eu hariannu o drydedd flwyddyn y benthyciad Buddsoddi i Arbed ac i addasu'r rhagamcanion recriwtio gwreiddiol ar draws y Rhaglen. |

| Penderfyniad: Rhewi prosesau recriwtio | |
|---|---|
| **Cynllun Dirprwyo** | • **Darpariaeth Gyllidebol:** Cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol ar gyfer pob Ardal, Comisiynydd Arweiniol a Chostau Canolog gan gynnwys amrywiadau i gyllidebau yn unol â rheoliadau ariannol a fforddiadwyedd.<br>• **Strwythurau Staff:** Cymeradwyo strwythurau staff ar gyfer pob ardal a'r comisiynydd arweiniol. Darparu ar gyfer y gyllideb sylfaen a chan gynnwys newidiadau sylweddol i'r strwythurau hynny.<br>• **Rheolaeth Ariannol:** Adolygu cynnydd ariannol yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol gan reolwr y gronfa gyfun.<br>• **Darparu Gwasanaethau:** Adolygu addasiadau newydd i'r gwasanaethau Eiddilwch a ddarperir neu benderfyniadau i ddiddymu gwasanaethau o'r fath a chytuno i gyflwyno'r addasiadau hynny o fewn unrhyw ardal. |
| **Penderfyniad: Rhewi prosesau recriwtio staff proffesiynol y bwriadwyd ymgymryd â hwy yn ystod trydedd flwyddyn y benthyciad Buddsoddi i Arbed** | |
| **Effaith** | • Tanwariodd y Rhaglen £1 filiwn o'r benthyciad Buddsoddi i Arbed a oedd ar gael i ysgogi model gofal cyffredin ar sail masnachfraint.<br>• Dim cynnydd pellach o ran strwythurau staffio i'r ardaloedd.<br>• Ailaddaswyd pob cynllun ardal er mwyn cario'r penodiadau a oedd yn weddill ac wedi'u gohirio o hyd o'r ail flwyddyn drosodd ond rhewyd unrhyw swyddi newydd ar gyfer y Rhaglen.<br>• Ni luniwyd unrhyw gynlluniau ardal pellach ar ôl 2013 gan mai dyma oedd y prif gyfrwng ar gyfer gweinyddu'r benthyciad.<br>• Ni ddefnyddiwyd mwy o'r benthyciad Buddsoddi i Arbed. |
| **Cyflwynwyd tystiolaeth o'r penderfyniad yn ffurfiol i'r Partneriaid** | Nid oedd cofnodion na chofnod o'r penderfyniad hwn ar gael i'r cyhoedd ac ni chawsant eu dosbarthu o fewn y sefydliadau partner ychwaith.<br>**Enghreifftiau o'r adroddiadau ffurfiol a gyflenwyd yn ystod yr adolygiad a oedd yn cyfateb i'r cyfnod amser hwn:**<br>• Casnewydd - Pwyllgor craffu ym mis Hydref 2013 ond roedd yn canolbwyntio ar adroddiad Cordis Bright.<br>• Sir Fynwy - Cafodd y pwyllgor craffu adroddiad ar Eiddilwch ond ddim tan fis Tachwedd 2014.<br>• Torfaen - Cofnodwyd yr oedi wrth recriwtio ar sleid PowerPoint fel rhan o seminar i aelodau ym mis Tachwedd 2013.<br>• Caerffili - Adroddiad craffu ym mis Hydref 2014 ond roedd yn canolbwyntio ar gynllun gweithredu ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.<br>• Blaenau Gwent – Adroddiad craffu ym mis Hydref 2014 ond roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar adolygiad Cordis Bright.<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Ni nodwyd unrhyw adroddiad penodol i olrhain y broses o gyfleu'r penderfyniad hwn. |

| Penderfyniad: Amserlen ad-dalu ddiwygiedig ar gyfer y Benthyciad Buddsoddi i Arbed a phenderfyniad i beidio â defnyddio mwy o'r arian | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | Nododd y benthyciad Adran 33 amserlen ad-dalu o £0.37 miliwn yn 2012-13; £1 filiwn yn 2013-14; £1.5 miliwn yn 2014-15, 2015-16 a 2016-17, gyda thaliad terfynol o £1.439 miliwn yn 2017-18. Ym mis Medi 2014, trafododd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent gynnydd yn erbyn y benthyciad Buddsoddi i Arbed gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru. Gofynnodd aelodau Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent i Lywodraeth Cymru ddiystyru'r benthyciad ond yn lle hynny, ym mis Tachwedd 2014, cynigiwyd cyfnod ad-dalu hirach i'r Rhaglen. Ystyriodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent bapur strategaeth ariannol yn nodi tri opsiwn ar gyfer ad-dalu a rheoli'r gronfa gyfun. Roedd cyflwyniadau manwl o gymorth wrth lywio'r penderfyniad, a oedd yn cynnwys papur ar osgoi costau a sut y gellid o bosibl ryddhau arbedion. Cynigiodd y swyddogion cyllid dri opsiwn i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent eu hystyried, sef:<br>• cyfyngu'r gwariant y cytunir arno i'r isafswm er mwyn cynnal y strwythurau presennol heb ddefnyddio rhagor o'r benthyciad ac estyniad o ddwy flynedd i ad-dalu'r benthyciad;<br>• cyfyngu'r gwariant i lefelau 2014-15; neu<br>• ehangu'r buddsoddiad i gynnwys swyddi'r ail flwyddyn a swyddi hanfodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn parhau. |
| **Penderfyniad** | Tachwedd 2014: Penderfynodd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent yn unfrydol y dylid gweithredu opsiwn un. |
| **Cynllun Dirprwyo** | **Rheolaeth Ariannol:** Adolygu cynnydd ariannol yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol gan Reolwr y Gronfa Gyfun.<br>**Buddsoddi i Arbed a Gwireddu Buddiannau.** Monitro'r uchod a sicrhau bod y targedau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyrraedd. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r canlynol:<br>• bod gwariant ychwanegol yn unol â datganiadau, a bod y gweithgareddau cyfeirio y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni;<br>• sicrhau bod y buddiannau priodol yn cael eu gwireddu (targedau arbedion); a<br>• sicrhau bod taliadau Buddsoddi i Arbed yn cael eu talu. |

| Penderfyniad: Amserlen ad-dalu ddiwygiedig ar gyfer y Benthyciad Buddsoddi i Arbed a phenderfyniad i beidio â defnyddio mwy o'r arian | |
|---|---|
| **Effaith** | • Ni ddefnyddir mwy o'r benthyciad - roedd £1 filiwn o'r benthyciad a oedd ar gael yn parhau heb ei neilltuo gan olygu mai swm terfynol o £6 miliwn a ddefnyddiwyd.<br>• Dwy flynedd ychwanegol i ad-dalu'r benthyciad, gydag ymrwymiadau hyd at 2020-21. |
| **Cyflwynwyd tystiolaeth o'r penderfyniad yn ffurfiol i'r Partneriaid** | Nid oedd cofnodion na chofnod o'r penderfyniad hwn ar gael i'r cyhoedd.<br>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol gennym fod y penderfyniad hwn wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i unrhyw bwyllgorau o fewn sefydliadau'r partneriaid.<br>Nododd cydweithwyr y câi'r amserlen ad-dalu ei hadlewyrchu mewn cynlluniau cyllidebol yn y dyfodol ac yn y cynllun ariannol ar gyfer y Rhaglen. |

# Atodiad 3

## Gwybodaeth benodol am y sefydliadau

### Arddangosyn 4: Gwybodaeth benodol am y sefydliadau

Mae Arddangosyn 4 yn dangos tablau sy'n darparu gwybodaeth gyd-destunol am rôl a swyddogaeth pob partner unigol sy'n rhan o'r bartneriaeth gyffredinol.

| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
|---|
| **Rôl yn y rhaglen** |
| Comisiynydd y rhaglen gyda Chaerffili. |
| **Gwybodaeth a gyflwynwyd i swyddogaeth graffu a phwyllgorau'r sefydliad partner** |
| Diweddariadau rheoli ariannol a chyllidebol blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio.<br>Adroddiadau adolygu allanol i'r Pwyllgor Archwilio.<br>Diweddariad ar y gweithlu a phrosesau recriwtio i Bwyllgor Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad.<br>Adroddiad ar y negeseuon allweddol o ran perfformiad mewn perthynas ag eiddilwch.<br>Hwyluswyd seminar y Tîm Gweithredol ar ganlyniadau'r Adolygiad Allanol o'r Rhaglen ym mis Awst 2014.<br>Adroddiadau cyfnodol i'r Tîm Gweithredol ar faterion gweithredol mewn perthynas ag eiddilwch.<br>Adroddiadau cynnydd blynyddol i'r Tîm Gweithredol. |
| **Arsylwadau allweddol** |
| Seminar i Aelodau'r Bwrdd ar ganlyniad adroddiad yr ymgynghorydd allanol. |

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| --- |
| **Rôl yn y rhaglen** |
| Partner Awdurdod Lleol<br>Cadeirydd y Grŵp Cydgysylltu Gweithredol |
| **Gwybodaeth a gyflwynwyd i swyddogaeth graffu a phwyllgorau'r sefydliad partner** |
| Adroddiad yr ymgynghorydd i'r Tîm Gweithredol.<br>Adroddiad yr ymgynghorydd i'r Pwyllgor Craffu ar Ofal Cymdeithasol a Chynhwysiant.<br>Adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (2011 a 2014).<br>Diweddariadau cyllidebol rheolaidd i'r Tîm Gweithredol.<br>Adroddiad ar gynnydd i'r uwch dîm rheoli (2011 a 2014). |

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
|---|
| **Rôl yn y rhaglen** |
| Comisiynydd arweiniol y Rhaglen<br>Awdurdod comisiynu a chorff cynnal Adran 33<br>Gweinyddwyr ariannol |
| **Gwybodaeth a gyflwynwyd i swyddogaeth graffu a phwyllgorau'r sefydliad partner** |
| Adroddiadau cyllid i'r pwyllgor Cyllid.<br>Adroddiad yr ymgynghorydd i'r pwyllgor Craffu ar Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant.<br>Adroddiad adolygu allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) i'r Pwyllgor Archwilio. |

| Cyngor Sir Fynwy |
| --- |
| **Rôl yn y rhaglen** |
| Cadeirydd Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent |
| **Gwybodaeth a gyflwynwyd i swyddogaeth graffu a phwyllgorau'r sefydliad partner** |
| Adroddiadau cynnydd blynyddol ar ddatblygu'r gwasanaeth eiddilwch i'w Pwyllgor Dethol Oedolion. |

| Cyngor Dinas Casnewydd |
| --- |
| **Rôl yn y rhaglen** |
| Partner Awdurdod Lleol |
| **Gwybodaeth a gyflwynwyd i swyddogaeth graffu a phwyllgorau'r sefydliad partner** |
| Adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar y Rhaglen i'r Tîm Gweithredol tan 2012 ac wedyn bob blwyddyn.<br>Adroddiadau ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Tai a Gwasanaethau Cymunedol a'r Pwyllgor Trosolwg tan 2013 ac wedyn bob blwyddyn.<br>Adroddiad yr ymgynghorydd i'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Gynllunio a Datblygu Cymunedol.<br>Adroddiadau cyllidebol i'r Pwyllgor Cyllid.<br>Adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Gynllunio a Datblygu Cymunedol. |

| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
|---|
| **Rôl yn y rhaglen** |
| Partner Awdurdod Lleol |
| **Gwybodaeth a gyflwynwyd i swyddogaeth graffu a phwyllgorau'r sefydliad partner** |
| Adroddiadau ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iachach.<br>Adroddiadau chwarterol wedi'u cynnwys o fewn adroddiad Cydweithredu.<br>Seminarau aelodau i bob cynghorydd (Tachwedd 2013 ac Ebrill 2015).<br>Adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio (deirgwaith yn 2014). |
| **Arsylwadau allweddol** |
| Adroddiadau cydweithredu ar gyfer pob pwyllgor craffu yn Nhorfaen er mwyn craffu ar y gwaith ymgysylltu ar bartneriaethau allanol.<br>Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r swyddogaeth Graffu drwy gydol y Rhaglen.<br>• Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen seminar i'r aelodaeth etholedig ym mis Ebrill 2015 er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnydd y Rhaglen.<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn llunio adroddiad cydweithredu a ddosberthir i bob aelod etholedig ar bob Pwyllgor Craffu ac mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariadau rheolaidd ar y Rhaglen. |

# Atodiad 4

## Ymateb y rheolwyr

Arddangosyn 5: Ymateb y rheolwyr

Mae Arddangosyn 5 yn darparu ymateb y rheolwyr i'r cynigion ar gyfer gwella o ganlyniad i'r archwiliad hwn.

| Cyf | Cynnig ar gyfer Gwella | Canlyniad/ budd bwriadedig | Blaenoriaeth uchel | Derbyniwyd | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Sicrhau ymrwymiad i ddyfodol y Rhaglen gan y sefydliadau partner a'i fynegi'n glir drwy gytundeb adran 33. | Mae'r sefydliadau partner yn cynnal trosolwg strwythuredig o'r broses o gyflawni canlyniadau bwriadedig y Rhaglen ac yn cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol mewn perthynas ag adnoddau a chyfeiriad yn y dyfodol. | Ie | Do | Drafftiwyd cytundeb Adran 33 newydd ar gyfer cyfnod o 5 mlynedd i'w drafod a'i gymeradwyo yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ym mis Chwefror. Trefnir y cytundeb hwn drwy Bwyllgorau Craffu a Chabinetau perthnasol pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn sicrhau bod pob sefydliad partner yn ymrwymedig i ddyfodol y rhaglen.<br>Cymeradwywyd yr Adran 33 newydd gan y 5 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac mae adran gyfreithiol y Bwrdd Iechyd wrthi'n ei ystyried ar hyn o bryd er mwyn ei gadarnhau'n swyddogol. | Chwefror 2016 | Cyd-bwyllgor |

| Cyf | Cynnig ar gyfer Gwella | Canlyniad/ budd bwriadedig | Blaenoriaeth uchel | Derbyniwyd | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C2 | Sicrhau y caiff y cytundeb Adran 33 ei ategu gan nodau a thargedau mesuradwy clir. | Bydd y partneriaid yn gallu dangos tystiolaeth glir eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau bwriadedig. | Ie | Do | Nodir nodau, buddiannau a chanlyniadau cyffredinol y rhaglen yn Adran 5 o'r cytundeb Adran 33. Ceir ffrwd waith barhaus i ddiwygio'r DPAau presennol ar gyfer Eiddilwch er mwyn sicrhau eu bod yn fwy addas ar gyfer y canlyniadau bwriadedig.<br>Datblygwyd dangosfwrdd perfformiad newydd gyda DPAau mwy ystyrlon sy'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaethau, yn hytrach na'r targedau ariannol sy'n ymwneud â diwrnodau gwely. | Chwefror 2016 | Cyfarwyddwyr |

| Cyf | Cynnig ar gyfer Gwella | Canlyniad/ budd bwriadedig | Blaenoriaeth uchel | Derbyniwyd | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C3 | Datblygu fframwaith rheoli perfformiad er mwyn sicrhau y gellir dangos tystiolaeth glir o lwyddiant y Rhaglen a darparu system i ategu atebolrwydd ardaloedd lleol. | Bydd systemau ar waith i alluogi partneriaid i fesur perfformiad a chymryd camau adferol fel y bo angen. | | Do | Mae DPAau newydd yn cael eu datblygu er mwyn mesur canlyniadau ar gyfer Rhaglen Eiddilwch Gwent yn y dyfodol. Caiff y rhain eu defnyddio i fonitro cyfeiriad y rhaglen ac i uwchgyfeirio unrhyw bryderon i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent fel y bo'n briodol.<br>Cafodd yr adroddiad perfformiad drafft newydd groeso cynnes gan y Grŵp Cydgysylltu Gweithredol a gwnaed nifer fach o fân newidiadau. Caiff ei gyflwyno i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent ym mis Hydref er mwyn iddynt gymeradwyo'r fersiwn derfynol. | Mehefin 2016 | Daniel Clarke |

| Cyf | Cynnig ar gyfer Gwella | Canlyniad/ budd bwriadedig | Blaenoriaeth uchel | Derbyniwyd | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C4 | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn cynnwys craffu'n effeithiol ar y Rhaglen gyfan ac yn ymgysylltu â sefydliadau partner fel y bo'n briodol. | Creffir ar y bartneriaeth yn rheolaidd a chaiff ei herio er mwyn gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir. | | Do | Yn y cytundeb Adran 33 newydd, nodir strwythur llywodraethu ac adrodd diwygiedig yn atodlen 2. Noda paragraff 13.9 y bydd y trefniadau craffu yn gydnaws â fframwaith cyfansoddiadol pob sefydliad.<br>Yn ogystal, lluniwyd adroddiad blynyddol ac fe'i dosbarthwyd i'r sefydliadau partner, gyda'r bwriad y bydd ar gael i'r cyhoedd. | Medi 2016 | Cyfarwyddwyr |
| C5 | Sicrhau bod y broses o gofnodi penderfyniadau yn gyson a bod cofnodlyfr ar gyfer gwneud hynny, a bod gweithgareddau'r Rhaglen ar gael i'r cyhoedd ac yn hygyrch. | Bydd aelodau o'r cyhoedd, y sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill yn gallu gweld gwybodaeth sy'n dangos cynnydd y bartneriaeth er mwyn gwella tryloywder. | | Do | Dylid datblygu cofnodlyfr penderfyniadau a chamau gweithredu er mwyn ategu'r cofnodion. Caiff hyn ei gynnwys yn y papurau i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent a'i ddosbarthu'n briodol.<br>Datblygwyd cofnodlyfr camau gweithredu a chaiff ei ddosbarthu gyda'r papurau i Gyd-bwyllgor Eiddilwch Gwent a'r Grŵp Cydgysylltu Gweithredol. | I'w gadarnhau (yn aros am gadarnhad gan gydweithwyr o fewn yr ALlau o ran sut y caiff y broses hon ei rheoli yn gyhoeddus) | Daniel Clarke |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru